



## Tiwtor Cymraeg i Oedolion a delir fesul awr

### Cyflog cychwynnol - Graddfa E - \*£28.17 - £32.63 yr awr

Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg (Prifysgol De Cymru) yn darparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar bob lefel gan gynnwys cyrsiau wythnosol, dwys, bloc a phreswyl, Cymraeg i'r Teulu a chysiau gweithle. Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn chwilio am diwtoriaid i ddysgu gyda'r nos yn bennaf, ac i ymuno â thîm o diwtoriaid talentog a brwdfrydig. Cynhelir y dosbarthiadau mewn lleoliadau amrywiol ar draws rhanbarth Penybont, RhCT a Merthyr ond darperir y rhan fwyaf o'r gwersi ar lein ar hyn o bryd.

Disgwylir i ddeiliaid y swydd weithio'n drefnus, meddu ar sgiliau rhyngpersonol a sgiliau technoleg gwybodaeth effeithiol a meddu ar gymhwyster dysgu neu gymhwyso o fewn 2 flynedd.

Am sgwrs anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â [catherine.stephens@decymru.ac.uk](mailto:catherine.stephens@decymru.ac.uk)

Mae'r brifysgol yn gweithredu model gweithio hybrid ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio ar y campws am ran o'r wythnos.

Os ydych chi'n ymgeisydd llwyddiannus a'r swydd hon fydd eich swydd gwasanaethau proffesiynol gyntaf yn y Brifysgol (neu fe'ch cyflogir gan PSS Ltd ar hyn o bryd), cewch eich cyflogi gan Professional and Support Services Limited, is-gwmni ym mherchnogaeth Iwyr Prifysgol De Cymru, sy'n darparu gwasanaethau i'r Brifysgol a'r Colegau. Os ydych chi'n ymgeisydd gwasanaethau proffesiynol mewnol, byddwch chi'n parhau i gael eich cyflogi gan Brifysgol De Cymru.

**Ymgeisiwch ar-lein** <https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/swyddi-yn-pdc/>

### Swydd-ddisgrifiad

<b>Swydd</b>	Tiwtor Cymraeg i Oedolion a Delir Fesul Awr
<b>Cyfadrn/Adran</b>	Cyfadrn Gwyddorau Bywyd ac Addysg
<b>Ysgol/isadrn</b>	Ysgol Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Cymdeithasol
<b>Yn darparu gwasanaethau i</b>	Prifysgol De Cymru
<b>Gradd a chyflog</b>	*£28.17 - £32.63 yr awr * penodir ar isafswm y raddfa
<b>Oriau gwaith</b>	O leiaf 2 awr yr wythnos

<b>Hyd cytundeb (parhaol, cyfnod penodol)</b>	cyfnod penodol am 1 flynedd
<b>Yn adrodd i (teitl swydd)</b>	<b>Swyddog Datblygu Ardal</b>

### Pwrpas y swydd

Dysgu ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion ar bob lefel gan gynnwys cyrsiau wythnosol, dwys, bloc a phreswyl, Cymraeg yn y Cartref a chysiau gweithle. Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn chwilio am diwtoriaid i ddysgu gyda'r nos yn bennaf, ac i ymuno â tîm o diwtoriaid talentog a brwdfrydig. Cynhelir y dosbarthiadau mewn lleoliadau amrywiol ar draws rhanbarth Penybont, RhCT a Merthyr ond darperir y rhan fwyaf o'r gwersi ar lein ar hyn o bryd.

### Cyfrifoldebau Allweddol

- Cyflwyno oriau addysgu rheolaidd ar raglen Cymraeg i Oedolion yn wythnosol, gan gydymffurfio â'r holl reoliadau ansawdd a osodir gan Ddysgu Cymraeg Morgannwg. Gall y dosbarthiadau hyn fod mewn unrhyw ardal (Rhondda Cynon Taf, Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr) ac ar unrhyw lefel yn y Fframwaith Cenedlaethol sef: Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch neu Hyfedredd. Gallent fod yn ddosbarthiadau wyneb i wyneb neu ar lein.
- Paratoi gwersi yn unol â chanllawiau Cymraeg i Oedolion.
- Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau gweinyddol sy'n rhan o ddosbarth Cymraeg i Oedolion – cadw cofrestrau cywir ar lein ac ar bapur a'u cyflwyno'n brydlon; cyflwyno gwaith papur cysylltiedig yn gywir ac yn brydlon; mynychu cyfarfodydd tîm yn ôl yr angen.
- Dilyn Polisi Marcio Gwaith Cartref/Rhoi Adborth Dysgu Cymraeg Morgannwg.
- Paratoi dysgwyr at arholiadau allanol CBAC lle y bo'n briodol.
- Cyfeirio dysgwyr i'r cynllun hunanasesu Cenedlaethol ar-lein ac annog dysgwyr i adolygu eu cynnydd yn rheolaidd.
- Dyletswyddau bugeiliol sy'n gysylltiedig â'r rôl.
- Hyrwyddo pob agwedd ar waith Dysgu Cymraeg Morgannwg mewn modd cadarnhaol a phroffesiynol.
- Llunio Cynllun Adolygu Perfformiad a Datblygiad a mynychu cyfarfodydd i drafod hyn.
- Mynychu sesiynau hyfforddi tiwtoriaid Morgannwg (o leiaf un pob tymor) i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus - telir lwfans hael i'r holl staff a delir fesul awr ar gyfer yr hyfforddiant hwn.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rôl.

## Manyleb y Person

Er mwyn gallu cyflawni'r rôl hon yn effeithiol bydd angen y priodoleddau a'r sgiliau allweddol a amlinellir isod. Wrth gwblhau eich cais gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dangos sut rydych chi'n cwrdd â'r meini prawf hyn.

	Hanfodol
1	*Sgiliau addysgu Cymraeg
2	*Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu rhagorol
3	*Hyddysg mewn Technoleg Gwybodaeth ac yn gyfarwydd â phecynnau cyfrifiadurol Microsoft
4	*Sgiliau trefnu, cynllunio a gweinyddol rhagorol
5	*Y gallu i gyfathrebu yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.
6	*Y gallu i weithio'n annibynnol, heb arolygu manwl
7	*Gwybodaeth am faes Cymraeg i Oedolion
8	*Profiad o addysgu ieithoedd
9	*Ar gael i fynychu sesiynau HMS Dysgu Cymraeg Morgannwg a'r parodwydd i ddatblygu sgiliau proffesiynol yn barhaol.
10	*Parodwydd i gwblhau'r Cymhwyster 'Dechrau Dysgu' os nad oes cymhwyster dysgu Cymraeg gennych.
	Dymunol
11	Profiad o addysgu Cymraeg
12	Profiad o addysgu ar lein
13	Cymhwyster mewn addysgu ieithoedd

## Hefyd, bydd angen i chi:

14	Fod ar gael i weithio gyda'r nos a/neu ar benwythnosau
15	Y defnydd o gar a'r gallu i deithio ar hyd a lled yr ardal
16	Y defnydd o gyfrifiadur

## Iechyd a Diogelwch

Rhaid i chi a) ymgyfarwyddo a chydymffurfio â Pholisïau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y sefydliad, sydd ar gael ar Cyswllt (y Fewnwyd); a b) bod yn gwbl gyfarwydd â'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a amlinellir yn nogfen Trefniadau Rheoli Iechyd a Diogelwch y Gyfadran/Adran a'u gweithredu'n unol â hynny.



Proffesiynol  
Professional



Ymatebol  
Responsive



Creadigol  
Creative



Ysbrydoledig  
Inspiring



Cydweithredol  
Collaborative

PUBLIC / CYHOEDDUS

## Ymrwymiad Hyderus o ran Anabledd - Cynnig o gyfweiliad

Mae Professional and Support Services Limited wedi ymrwymo i gyflogi gweithlu amrywiol a chreu amgylchedd cynhwysol lle gall staff fod yn nhw eu hunain a phawb yn cael eu trin ag urddas, tegwch a pharch. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o gefndiroedd a chymunedau amrywiol, yn enwedig o ran oedran, anabledd, rhyw, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil a chrefydd neu gred. Rydym yn gwarantu bod pob ymgeisydd anabl sy'n cwrdd â'r holl feini prawf allweddol ar gyfer y swydd wag y maent yn gwneud cais amdani yn cael cynnig cyfweiliad. Nodir meini prawf allweddol gan \* ym Manyleb y Person uchod.